Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Bwyty'r Carib Bayou

Agorwyd bwyty'r Carib Bayou yn 2011 gan y gweithredwr busnes bwyd (FBO), Mr Serge Trescott, a'i wraig Henrietta. Mae'r bwyty yn arbenigo mewn bwyd o safon uchel o'r Caribi ac mae lle i uchafswm o 75 o bobl ynddo.

## Staff

Mae Mr Trescott yn cyflogi cyfanswm o naw aelod o staff:

- 2 gogydd: Carlos a Francis
- 3 chogydd sous: Nicole, Tristram a Denise
- 2 gynorthwyydd cegin: Kevin a Trevor
- 2 weinyddes: Ulrika a Clarissa

Fel arfer, mae un cogydd, dau gogydd sous, un cynorthywydd cegin ac un weinyddes yn gweithio, ar wahân i'r penwythnosau, pan y mae pob aelod o'r staff yn bresennol. Mae pob aelod o'r staff wedi gweithio yn y bwyty ers iddo agor yn 2011, oni bai am y cynorthwywyr cegin a'r gweinyddesau. Mae'n anodd cadw staff yn y rolau hyn ac yn aml, mae Mr Trescott yn ricriwtio myfyrwyr sy'n ennill yr isafswm cyflog.

Dysgu rhagor am y staff

## System wedi'i seilio ar egwyddorion HACCP

Mae Mr Truscott yn defnyddio systemBwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell a chafodd Roger, ymgynghorydd diogelwch bwyd, ei gyflogi er mwyn helpu i sefydlu'r system a chynnal archwiliadau diogelwch bwyd blynyddol. Mae Roger hefyd yn darparu gwasanaeth rheoli plâu, ac mae'n ymweld â'r bwyty bob tri mis er mwyn cynnal archwiliad plâu.

## Hyfforddiant

Mae Mr Trescott yn cynnal sesiwn hyfforddi fewnol gyda'i staff bob blwyddyn gan gyfeirio at ei becyn 'Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell', yn ogystal â defnyddio'rfideos hylendid bwydo wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Saesneg un unig). Caiff presenoldeb staff yn y cyfarfodydd hyn ei gofnodi yn y pecyn. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd, gan gynnwys cyfarfod arolygu misol a gofnodir yn y pecyn.

Mae pob aelod staff newydd yn derbyn cyflwyniad byr i hylendid bwyd gan Mr Trescott, gan ddefnyddio'r adnodd hwn:

### England and Wales

PDF

Gweld Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell - Cyflwyniad as PDF(Open in a new window) (356.92 KB)

# Hanes

Cafodd y bwyty ei archwilio ddiwethaf ar 20 Awst 2014. Cyn hynny, cynhaliwyd yr arolygiadau canlynol. Mae'r adroddiadau ar gyfer yr arolygiadau hynny fel a ganlyn:

| Dyddiad | Categori | Sgôr | Sgôr CSHB | Adroddiad Arolygu |
|---|---|---|---|---|
| 20 Awst 2014 | B | 75 | 4 | PDF<br>Gweld Adroddiad hylendid bwyd Carib Bayou 2014 as PDF(Open in a new window) (195.01 KB) |
| 16 Gorffennaf 2013 | B | 75 | 4 | PDF<br>Gweld Adroddiad hylendid bwyd Carib Bayou 2013 as PDF(Open in a new window) (144.43 KB) |
| 3 Gorffennaf 2012 | B | 75 | 4 | PDF<br>Gweld Adroddiad hylendid bwyd Carib Bayou 2012 as PDF(Open in a new window) (143.46 KB) |

Mae'r canlyniadau samplu canlynol wedi'u cofnodi:

| Dyddiad | Sampl | Canlyniad |
|---|---|---|
| 20 Ionawr 2015 | Swabio handlen yr oergell | Boddhaol |
| 20 Ionawr 2015 | Swabio bwrdd torri a ddefnyddir ar gyfer cig wedi'i goginio | Boddhaol |
| 20 Ionawr 2015 | Swabio bwrdd torri a ddefnyddir ar gyfer llysiau wedi'u coginio | Boddhaol |
| 13 Mai 2012 | Cig eidion wedi'i goginio | Boddhaol |

[illegible] cysondeb